Natur Ar Eich Stepen Drws

# Cerrig Adeiladu Tyddewi

Defnyddiwyd amrywiaeth o gerrig yn adeiladau a thai Tyddewi – nifer yn gerrig lleol, ac eraill o bell. Mae cerrig adeiladau yn ffordd wych o astudio daeareg lleoliad trefol. Faint o'r cerrig hyn allwch chi eu gweld?

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr ein hamgueddfa i helpu gydag adnabod, ewch i: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws

AMGUEDDFA CYMRU

020



## Beth yw carreg adeiladu?

Mae cerrig dan ein traed ym mhobman, yn aml wedi'u cuddio gan bridd, llystyfiant, ffyrdd ac adeiladau. Yn y clogwyni a'r bryniau o gwmpas Tyddewi mae amrywiaeth o gerrig i'w gweld.

Nid pob carreg sy'n addas ar gyfer adeiladu. Mae carreg adeiladu dda yn gryf ac yn gwrthsefyll hindreuliad, yn ddeniadol a'r gost o'i chloddio a'i symud yn rhesymol. Daw'r rhan fwyaf o gerrig Tyddewi o chwareli lleol.



## Tywofaen Non

Tywodfaen werdd sy'n hindreulio'n frown gloyw, gyda dafnau mica yn frith drwyddi.

**I'w gweld yn...** Stryd Fawr, The Pebbles, y Gadeirlan

### Sut ffurfiwyd y cerrig hyn?

- Gwaddod mewn moroedd bas
- Ffrwydrad llosgfynydd
- Magma'n oeri'n araf danddaear



## Tywodfaen Caerbwdi

Tywodfaen borffor, gyda dafnau o mica ynddi. Carreg 'rydd' yw hon all gael ei thorri i unrhyw gyfeiriad.

Yn aml i'w gweld ar gorneli adeiladau (conglfaen) neu o gwmpas drysau a ffenestri.

**I'w gweld yn...** Stryd Fawr, y Gadeirlan, Palas yr Esgob



## Twffau Perbidaidd Is

Cerrig porffor, coch a gwyrdd, gritiog gyda dafnau mawr, gwastad o graig folcanig a chrisialau wedi chwalu.

**I'w gweld yn...** The Pebbles, y Gadeirlan, Palas yr Esgob



## Granoffyr

Granit lliw golau gyda chrisialau cwarts a ffelsbar bach a mwynau clorit tywyll yn ei britho.

**I'w gweld yn...** Stryd Fawr, Porth-y-Twr, Palas yr Esgob

### Gabro

Carreg dywyll, gyda chrisialau ffelsbar gwyn, pyrocsen du (crisialau hir siapus), ac ychydig o cwarts. Yn hindreulio'n frown a phantiog yn aml.

**I'w gweld yn...** Stryd Fawr, Porth-y-Twr, y Gadeirlan, Palas yr Esgob



Cyfnod daearegol ac ystod oed

- Ordoficaidd: 449 – 466 miliwn o flynyddoedd yn ôl
- Cambriaidd: 499 – 526 miliwn o flynyddoedd yn ôl
- Ediacaraidd: 600 – 630 miliwn o flynyddoedd yn ôl